OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way), (Llan-wern, Casnewydd) (Terfynau Cyflymder Dros Dro a Chlirffordd) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Rhagfyr 2024* |
| *Yn dod i rym* | *16 Rhagfyr 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r ffordd fynediad oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way), (Llan-wern, Casnewydd) (Terfynau Cyflymder Dros Dro a Chlirffordd) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Rhagfyr 2024.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2024 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A4810 Steelworks Access Road (Queen's Way), (Llanwern, Newport) (Temporary Speed Limits and Clearway) Order 2024

| | |
|---|---|
| *Made* | *9 December 2024* |
| *Coming into force* | *16 December 2024* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A4810 Steelworks Access Road (Queen's Way), are satisfied that traffic on specified lengths of the access road should be prohibited and restricted by reason of the likelihood of danger to the public.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A4810 Steelworks Access Road (Queen's Way), (Llanwern, Newport) (Temporary Speed Limits and Clearway) Order 2024 and this Order comes into force on 16 December 2024.

### Interpretation

**2.** In this Order—

"access road" *("ffordd fynediad")* means the A4810 Steelworks Access Road (Queen's Way) as specified in the Schedules to this Order;

(**1**) 1984 c. 27; Section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cerbytffordd” (“*carriageway*”) yw’r darn hwnnw o’r ffordd fynediad y bwriedir i gerbydau traffig dramwyo arni ond nad yw’n cynnwys cilfan;

ystyr “ffordd fynediad” (“*access road*”) yw Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen’s Way) fel y’i pennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn;

ystyr “llain ymyl” (“*verge*”) yw unrhyw ran o’r ffordd fynediad nad yw’n gerbytffordd nac yn gilfan; ac

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Gwaharddiadau a chyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o’r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o’r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o’r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 3 i’r Gorchymyn hwn.

**6.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 8, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd stopio ar y darn o’r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 4 i’r Gorchymyn hwn, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd

“carriageway” (“*cerbytffordd*”) means that length of the access road which is intended for the passage of vehicular traffic but excludes a lay-by;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(a) any vehicle being used by the emergency services; and

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the home forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director; and

“verge” (“*llain ymyl*”) means any part of the access road which is not a carriageway or lay-by.

**Prohibitions and restrictions**

**3.** No person may drive any motor vehicle at a speed exceeding 30 miles per hour on the length of the access road specified in Schedule 1 to this Order.

**4.** No person may drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the access road specified in Schedule 2 to this Order.

**5.** No person may drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the access road specified in Schedule 3 to this Order.

**6.** Except as provided by article 8, no person may cause or permit any vehicle to stop on the length of the access road specified in Schedule 4 to this Order except on the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

**7.** Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd stopio ar unrhyw lain ymyl sy'n union gyfagos i unrhyw ran o'r gerbytffordd a gynhwysir yn y darnau o'r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn at ddiben gwerthu nwyddau o'r cerbyd hwnnw.

**Esemptiadau**

**8.** Ni fydd dim yn erthygl 6 yn gymwys—

(a) er mwyn atal cerbyd sy'n aros ar unrhyw gerbytffordd cyhyd ag sy'n angenrheidiol i'r cerbyd gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r canlynol:

(i) unrhyw waith adeiladu neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r ffordd fynediad neu osod, codi, cynnal a chadw, addasu neu atgyweirio ar y ffordd fynediad neu gerllaw iddi unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**1**);

(b) i gerbyd a ddefnyddir at ddibenion yr heddlu, y frigâd dân neu'r gwasanaeth ambiwlans;

(c) i gerbyd a ddefnyddir yng ngwasanaeth awdurdod lleol yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol; a

(d) i gerbyd sy'n stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain; neu

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau y tu allan i'w reolaeth.

(**1**) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

**7.** No person may cause or permit any vehicle to stop on any verge immediately adjacent to any part of the carriageway comprised in the lengths of the access road specified in Schedule 4 to this Order for the purpose of selling goods from that vehicle.

**Suspension**

**8.** Nothing in article 6 applies—

(a) so as to prevent a vehicle waiting on any carriageway for so long as may be necessary to enable the vehicle to be used in connection with:

(i) any building operation or demolition;

(ii) the removal of any obstruction to traffic;

(iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the access road or the laying, erection, maintenance, alteration or repair in or near the access road of any sewer or of any main pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or of any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the Communications Act 2003(**1**);

(b) to a vehicle being used for police, fire brigade or ambulance purposes;

(c) to a vehicle being used in the service of a local authority in pursuance of statutory powers or duties; and

(d) to a vehicle stopping when the person in control of it:

(i) is required by law to stop;

(ii) is obliged to stop in order to avoid an accident; or

(iii) is prevented from proceeding by circumstances outside that person's control.

(**1**) 2003 c. 21. Schedule 3A was inserted by paragraph 1 of Schedule 1 to the Digital Economy Act 2017 (c. 30).

**Cymhwyso**

**9.** (1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 9 Rhagfyr 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**Darnau o Ffordd Fynediad y Gwaith Dur (Queen's Way), Llan-wern, Casnewydd**

**ATODLEN 1**
**Terfyn Cyflymder 30 MYA**

Y darn hwnnw o'r ffordd fynediad sy'n dechrau o ochr orllewinol cylchfan Cloc Mecanyddol Casnewydd hyd at bwynt 206 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt cyffordd Glan Llyn a reolir gan signalau.

**ATODLEN 2**
**Terfyn Cyflymder 40 MYA**

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 206 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt cyffordd Glan Llyn a reolir gan signalau hyd at bwynt 41 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt cyffordd Newport Galvanisers a reolir gan signalau.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 173 o fetrau i'r

**Application**

**9.** (1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6 and 7 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

**Duration of this Order**

**10.** The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the 9 December 2024

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

**Lengths of the Steelworks Access Road (Queen's Way), Llanwern, Newport**

**SCHEDULE 1**
**30 MPH Speed Limit**

That length of the access road that commences from the western side of the Newport Mechanical Clock roundabout to a point 206 metres east of the centre of the Glan Llyn signal controlled junction.

**SCHEDULE 2**
**40 MPH Speed Limit**

That length of the eastbound carriageway of the access road that commences from a point 206 metres east of the centre of the Glan Llyn signal controlled junction to a point 41 metres east of the centre of the Newport Galvanisers signal controlled junction.

That length of the westbound carriageway of the access road that commences from a point 173 metres east of the centre of the Air Products side road access to a point 206 metres east of the centre of the Glan

dwyrain o ganolbwynt ffordd fynediad ymyl Air Products hyd at bwynt 206 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt cyffordd Glan Llyn a reolir gan signalau.

**ATODLEN 3**
**Terfyn Cyflymder 50 MYA**

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 41 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt cyffordd Newport Galvanisers a reolir gan signalau hyd at bwynt 50 metr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd North Row.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 50 metr i'r gorllewin o Gyffordd North Row hyd at bwynt 173 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ffordd fynediad ymyl Air Products.

**ATODLEN 4**
**Clirffordd**

Y darn o'r ffordd fynediad sy'n dechrau o ochr orllewinol cylchfan Cloc Mecanyddol Casnewydd hyd at bwynt 50 metr i'r gorllewin o Gyffordd North Row, cyfanswm pellter o 5 cilometr.

Llyn signal controlled junction.

**SCHEDULE 3**
**50 MPH Speed Limit**

That length of the eastbound carriageway of the access road that commences from a point 41 metres east of the centre of the Newport Galvanisers signal controlled junction to a point 50 metres west of the centre of the North Row Junction.

That length of the westbound carriageway of the access road that commences from a point 50 metres west of the North Row Junction to a point 173 metres east of the centre of the Air Products side road access.

**SCHEDULE 4**
**Clearway**

That length of the access road that commences from the western side of the Newport Mechanical Clock roundabout to a point 50 metres west of the North Row Junction, a total distance of 5 kilometres.